CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y cyfarfod:	**8 Gorffennaf 2022**
Teitl:	**Argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r materion a ohiriwyd gan y Cyngor mewn perthynas â'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2022/23**
Diben yr adroddiad:	**Ystyried argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r materion a ohiriwyd gan y Cyngor mewn perthynas â'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2022/23.**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Bryan Davies** **Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau**

Cyflwyniad
Mae gofyn i'r Cyngor lunio Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau yn flynyddol er mwyn arfer y pwerau a roddir gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) ac fel y'i diwygiwyd gan Adrannau 62 i 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, a Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn ogystal, rhaid i'r Rhestr fodloni gofynion Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Ar 20 Mai 2022 cyflwynwyd i'r Cyngor y Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2022/23. Cymeradwyodd y Cyngor yr Atodlen, ac eithrio'r canlynol - cytunwyd ei gohirio er mwyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei hystyried ymhellach:

- Paragraff 8; pwynt bwled 6 a 7 o'r blaen adroddiad –
  "Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfodydd hybrid, sy'n golygu na fydd angen i'r holl Gynghorwyr fod yn bresennol yn Siambr y Cyngor er mwyn mynychu cyfarfodydd. Dylai'r rheini nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor perthnasol neu a wahoddir yn benodol i fod yn bresennol ymuno â'r cyfarfodydd o bell.

  "Rhaid i bresenoldeb wyneb yn wyneb mewn cynadleddau, seminarau, cyfarfodydd allanol a digwyddiadau hyfforddi gael caniatâd ymlaen llaw gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd."

- Paragraff 15.1 o'r Rhestr – "Bydd aros dros nos yn cael ei ganiatáu lle mae busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy yn unig, neu os

yw'r lleoliad mor bell y byddai teithio'n gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos yn afresymol. Rhaid i bob arhosiad dros nos gael ei ganiatáu ymlaen llaw gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd."

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Cyfarfu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 17 Mehefin 2022 i ystyried y materion a ohiriwyd gan y Cyngor ar 20 Mai 2022. Mae'r adroddiad wedi'i atodi yn Atodiad A.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i argymell y diwygiadau canlynol i'r Cyngor, sydd wedi'u nodi mewn print trwm isod:

- Paragraff 8; pwynt bwled 6 a 7 o'r blaen adroddiad

  "Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfodydd hybrid, sy'n golygu na fydd angen i'r holl Gynghorwyr fod yn bresennol yn Siambr y Cyngor er mwyn mynychu cyfarfodydd. **Anogir** y rheini nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor perthnasol neu a wahoddir yn benodol i fod yn bresennol ymuno â'r cyfarfodydd o bell.

  Dylai presenoldeb wyneb yn wyneb mewn cynadleddau, seminarau, cyfarfodydd allanol a digwyddiadau hyfforddi **gael ei drafod** gyda Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd, **er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn y gyllideb a bod angen presenoldeb wyneb yn wyneb**."

- Paragraff 15.1 o'r Atodlen – Ni argymhellwyd unrhyw newidiadau i'r paragraff hwn gan ei fod wedi'i gynnwys yn y Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ers 2017.

- Atodlen 2, Dyletswyddau cymeradwy, y paragraff cyntaf i'w ddiwygio fel a ganlyn, yn unol â pharagraff 8, pwynt bwled 7 o'r adroddiad blaen:

  Dylai cynghorwyr gysylltu â Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd os ydynt yn bwriadu hawlio costau teithio a threuliau ar gyfer presenoldeb wyneb yn wyneb mewn cynadleddau, seminarau, cyfarfodydd y tu allan i'r sir a digwyddiadau hyfforddi, **er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn y gyllideb a bod angen presenoldeb wyneb yn wyneb**."

Amserlenni a gofynion statudol
Mae gofyniad statudol i gymeradwyo Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau erbyn diwedd mis Gorffennaf, ei chyhoeddi ar-lein a'i chyflwyno'n ffurfiol i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Yn ogystal, caiff Taliadau Lwfans Aelodau eu cyhoeddi ar-lein yn flynyddol a'u cyflwyno hefyd i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

	A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam	Ddim yn ofynnol – nid yw'n cynnwys newid mewn gwasanaeth.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	***Crynodeb:***	
	Hirdymor: Amherthnasol	
	Integreiddio: Amherthnasol	
	Cydweithio: Amherthnasol	
	Cynnwys: Amherthnasol	
	Atal: Amherthnasol	

Argymhellion: **Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r diwygiadau canlynol i'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2022-2023**

a) Paragraff 8; pwynt bwled 6 a 7 o'r blaen adroddiad –

"Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfodydd hybrid, sy'n golygu na fydd angen i'r holl Gynghorwyr fod yn bresennol yn Siambr y Cyngor er mwyn mynychu cyfarfodydd. **Anogir** y rheini nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor perthnasol neu a wahoddir yn benodol i fod yn bresennol ymuno â'r cyfarfodydd o bell.

Dylai presenoldeb wyneb yn wyneb mewn cynadleddau, seminarau, cyfarfodydd allanol a digwyddiadau hyfforddi **gael ei drafod** gyda Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn y gyllideb a bod angen presenoldeb wyneb yn wyneb."

b) Atodlen 2, Dyletswyddau cymeradwy, y paragraff cyntaf i'w ddiwygio fel a ganlyn, yn unol â pharagraff 8, pwynt bwled 7 o'r adroddiad blaen:

Dylai cynghorwyr gysylltu â Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd os ydynt yn bwriadu hawlio costau teithio a threuliau ar gyfer presenoldeb wyneb yn wyneb mewn cynadleddau, seminarau, cyfarfodydd y tu allan i'r sir a digwyddiadau hyfforddi, **er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn y gyllideb a bod angen presenoldeb wyneb yn wyneb**."

Y rheswm dros y penderfyniad: **Er mwyn galluogi'r diwygiadau i gael eu gwneud i'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2022/23 ac er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau statudol.**

Trosolwg a Chraffu: Amherthnasol

	Ystyriwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, 17 Mehefin 2022
Fframwaith Polisi:	• Penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; • Cyfansoddiad y Cyngor.
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Amherthnasol
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Goblygiadau cyllidebol ar gyfer costau teithio cynyddol Aelodau
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risgiau:	Risgiau ariannol; Peidio â chyflawni targedau Rheoli Carbon y Cyngor
Pwerau Statudol:	• Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021; • Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 ac fel y'i diwygiwyd gan Adrannau 62 i 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013; • Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
Papurau Cefndir:	• Adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, 17 Mehefin 2022; • Cofnodion y Cyngor, 20 Mai 2022; • Adroddiad i'r Cyngor, 20 Mai 2022; • Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig Chwefror 2022.
Atodiadau:	Atodiad A – Adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, 17 Mehefin 2022
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Lowri Edwards Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Adrodd:	Lowri Edwards
Dyddiad:	17 Mehefin 2022